Gwybodaeth am Gyfweliad
BSc (Anrh) Podiatreg

Diolch am eich cais i astudio Podiatreg ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd Fel rhan o'n proses gwneud cais rydym yn gwahodd darpar ymgeiswyr i fynychu diwrnod cyfweld.

Bydd y cyfweliad yn para 10-15 munud ac mae wedi ei gynllunio er mwyn asesu eich addasrwydd ar gyfer gyrfa fel Podiatrydd cofrestredig a bod eich gwerthoedd a'ch ymddygiadau eich hun yn gyson â chyflogaeth y GIG. Rydym yn chwilio am ymgeiswyr sydd â dealltwriaeth o rôl y Podiatrydd cofrestredig cyfoes, ynghyd â diddordeb gwirioneddol, ac ymroddiad, tuag at y proffesiwn, y cyhoedd a'r GIG. Bydd y cyfweliad yn cael ei gynnal gan aelodau o'r tîm dysgu academaidd Podiatreg a Phodiatryddion cofrestredig sy'n gweithio o fewn y GIG sy'n ymwneud â hyfforddi myfyrwyr.

Ewch at ddesg y Dderbynfa yn adeilad Ysgol Reoli Caerdydd sydd wedi'i leoli yng nghefn Campws Llandaf (CF5 2YB) ar yr amser a nodir ar eich Trac UCAS.

Yr amser a nodir ar UCAS yw eich amser cyrraedd; byddwch yn cael amser penodol ar gyfer eich cyfweliad pan fyddwch chi'n cyrraedd. Dylid cyfeirio at amserlen y rhaglen ar gyfer diwrnod y cyfweliad.

Caniatewch ddiwrnod cyfan ar gyfer y broses cyfweld.
Bydd angen i chi ddod â math o lun adnabod gyda chi a thystiolaeth ysgrifenedig o un diwrnod o arsylwi podiatreg clinigol o leiaf neu brofiad gwaith os nad ydych eisoes wedi darparu hyn ar ein cyfer.

Os oes modd i chi fynychu'r dyddiad a nodir, cadarnhewch drwy **www.ucas.com/track** cyn gynted â phosib. Os nad oes modd i chi fynychu a hoffech ofyn am ddyddiad gwahanol, e-bostiwch **newstudent_interviews@cardiffmet.ac.uk**. Fel arall, gallwch gysylltu â'r adran Derbyniadau'n uniongyrchol ar 029 2041 6010. Yn anffodus ni allwn ystyried ymgeiswyr na allant fynychu'r cyfweliad. Y peth pwysicaf yw eich bod yn ymateb cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi oedi diangen wrth brosesu eich cais drwy UCAS.

Dylai unrhyw anghenion dysgu neu fynediad penodol gael eu nodi'n glir ymlaen llaw fel bod y trefniadau perthnasol yn gallu cael eu gwneud. Os hoffech gael cyfweliad trwy gyfrwng y Gymraeg, rhowch wybod i ni ymlaen llaw fel bod y trefniadau perthnasol yn gallu cael eu gwneud.

Edrychaf ymlaen at gwrdd â chi.

Yn gywir

Craig Gwynne PhD MSc BSc (Anrh) MChS
Darlithydd mewn Podiatreg a Phodiatrydd Cofrestredig HCPC
Tiwtor Derbyn Myfyrwyr ar gyfer BSc (Anrh) Podiatreg
Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd